OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 910 (Cy. 203)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Llanycil, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Awst 2020* |
| *Yn dod i rym* | *2 Medi 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A494, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Llanycil, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 2 Medi 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 12:00 ar 2 Medi 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw sy’n ymestyn o bwynt 50 metr o ffyrdd Dosbarth C i Parc hyd at bwynt 215 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt allanfa orllewinol cilfan Llanycil.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Awst 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru